| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| **DYDDIAD** | 26 Medi 2014 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ac Archwiliad perthnasol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Ffurflen Swyddogol o’r Cyfrifon, ôl-Archwiliad<br>• “Llythyr” Swyddfa Archwilio Cymru |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi’r wybodaeth cyn awdurdodi’r Cadeirydd i ardystio’r Ffurflen. |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i’r cyfarfod 20 Mehefin 2014 o’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd:

1.1 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o’r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o’r fath yn cadw cyfrifon sy’n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi’i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.2 Er nad yw’n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae’r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i’r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.3 Cyngor Gwynedd yw’r Cyngor ‘arweiniol’ sy’n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â Phwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.

1.4 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygio) 2010 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol, h.y. cyfrif incwm a gwariant a mantolen.

1.5 Ystyrir y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, oherwydd trosiant is na £1m, i fod yn “Is-Gyd-Bwyllgor”.

1.6 Ar gyfer “Is-Gyd-Bwyllgor”, rhaid cwblhau ffurflen swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd hwnnw yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy’n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol “IFRS”).

1.7 Mae’r ffurflen yma wedi’i ddyfeisio gan Swyddfa Archwilio Cymru ac y mae’n llawer llai trafferthus (a rhatach) i’w gynhyrchu na fyddai datganiadau statudol llawn (fyddai yn ei dro yn mynnu adroddiad llawn gan Swyddfa Archwilio Cymru).

## 2. CYFRIFON 2013/14

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2013/14 i'r cyfarfod 20 Mehefin 2014 o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar ffurf adroddiad "alldro" syml, ynghyd â'r ffurflen swyddogol am 2013/14 (cyn archwiliad).

## 3. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynir yma hefyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

## 4. ARCHWILIAD

Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, a cyflwynir yma lythyr ar ran yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn manylu ar ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

## 5. CYFRIFON TERFYNOL 2013/14

Cyflwynir hefyd y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o'r Ffurflen Swyddogol am 2013/14. Nid oes unrhyw newidiadau o sylwedd ers y fersiwn cyn-archwiliad, ond fe welwch chi fod y ffurflen bellach wedi'i ardystio'n briodol.

## 6. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a nodi'r wybodaeth sy'n yr atodiadau,** sef -

- Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2013/14;
- Llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- Ffurflen Swyddogol ar gyfer Cyfrifon ac Archwiliad 2013/14.

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod ardystio'r ffurflen wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.